

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL SIR CONWY 2019



Erbyn i chi dderbyn y Cylchlythyr hwn bydd Cyfarfod Cyhoeddus wedi'i gynnal yn y Ganolfan Gymdeithasol oedd yn gyfle i swyddogion ac aelodau Pwyllgor Apêl yr Ardal i roi diweddariad ynglŷn â'r sefyllfa ariannol bresennol ac i ateb cwestiynau gan y rhai oedd yn bresennol.

Hefyd roedd yn gyfle i gyfeirio at yr Ocsiwn Addewidion fydd yn cael ei threfnu gan y pwyllgor lleol yn yr Hydref ac roedd rhai yn barod i gynnig addewidion ymlaen llaw ar gyfer yr Ocsiwn Addewidion ar y noson. Os nad oeddech yn y cyfarfod ar Fedi'r 4ydd, gallwch gynnig addewidion neu roi gwybodaeth am unrhyw eitemau yr hoffech eu cyflwyno i'w rhoi ar Ocsiwn, trwy gysylltu ag Eirian ar 07890646694 neu lolo ar 07836364566, sy'n aelodau o'r pwyllgor apêl. Mae aelodau'r pwyllgor yn barod i gasglu'r eitemau gennych. Gwyliwch am bosteri a gwybodaeth fydd yn rhoi dyddiad yr Ocsiwn a dewch i gefnogi ac ymuno yn yr hwyl, mae noson Ocsiwn yn gallu bod yn hwyliog a chymdeithasol!

TREIALON CŴN DEFAID

21ail a 22ail

Medi

Dydd Gwener – Lleol

Dydd Sadwrn - Agor Dosbarth 1af a 2il



SGIP CYMUNEDOL

MAES PARCIO GORSOF DRENAU

Dydd Sadwrn 22ail Medi

9.30 – 12.00

... neu yng nghynt os bydd y sgip wedi llenwi.

BYRDDAU PLYGU

Mae 14 bwrdd plygu ysgafn ar gael i drigolion y pentref eu defnyddio am ddim.

Os ydych chi'n trefnu parti teulu neu os ydy mudiad rydych yn rhan ohono yn trefnu digwyddiad a bod angen byrddau ychwanegol arnoch, maen nhw ar gael ichi.

Yr oll sydd angen ichi ei wneud ydy cysylltu gyda Bob Valentine ar 07553296221 neu **e-bost:** bobandnen@btinternet.com i fynd i mewn i Ystafelloedd Gwyddelan (y tu ôl i'r ysgol) lle cân nhw eu cadw.

Os hoffech chi roi hysbyseb yng nghylchlythyr Dolwyddelan cysylltwch â'r pafiliwn gan ddefnyddio un o'r rhifau neu'r cyfeiriad e-bost ar y dudalen flaen.